- Darparu cyngor strategol i'r Cyfarwyddwr Cyllid, TG, a Gwasanaethau Gwybodaeth.
- Adnabod cyfleoedd digidol i wella canlyniadau a gwasanaethau cleifion a ddarperir.
- Ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth nodi cyfleoedd digidol, blaenoriaethu, cynllunio, gweithredu, a gwireddu buddion/canlyniadau.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau â phartneriaid allanol gan gynnwys cyflenwyr allweddol, Cyngor Sir Powys, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Chymuned Ddigidol GIG Cymru yn ehangach. Mewn perthynas â'r uchod, sicrhau bod cynlluniau Digidol BIAP yn ymateb i ddatblygiadau a chyfleoedd gwybodeg allweddol ar draws GIG Cymru a chyda Chyngor Sir Powys.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu fframwaith strategol ar gyfer Datblygiad Sefydliadol mewn perthynas â'r ochr Ddigidol.

- Ymgymryd ag ymchwil am ddatblygiadau digidol newydd er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad y atebion gwasanaeth digidol mwyaf cadarn, arloesol, ac sy'n cael eu gyrru gan anghenion y dyfodol.
- Seiberddiogelwch a Chydymffurfio, Llywodraethu Gwybodaeth, Cofnodion Meddygol a gweithredu fel Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol Gwybodaeth (SIRO) gan arwain ar gwblhau cynllun blynyddol SIRO.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU :

Bydd y rôl yn gweithredu'n annibynnol, gan gydymffurfio â chodau ymddygiad a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol. Yn y rôl bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am:

- Gynrychioli'r Bwrdd Iechyd gyda Chyfarwyddwyr Cenedlaethol grwpiau a phwyllgorau Digidol.
- Cyflawniad a pherfformiad strategol gwasanaethau Trawsnewid Digidol a TG, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu, yn ymateb i angen a bod materion yn cael eu cyfeirio'n briodol.
- Nodi blaenoriaethau busnes ar gyfer datblygu Seilwaith technegol, datblygu meddalwedd, systemau busnes a Gwasanaethau Digidol y Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau bod gwasanaethau Digidol, Llywodraethu Gwybodaeth a TG yn cael eu staffio'n briodol i ddarparu gwasanaethau.
- Sicrhau atebion a gwasanaethau sy'n cael eu gyrru'n ddigidol wedi'u cefnogi'n llawn gan Bensaerniaeth TGCh gyfoes a systemau gwydn a seiberddiogel.
- Arfer barn ac annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau yn unol â statws y swydd a pholisïau'r bwrdd iechyd, y cynllun dirprwyo, a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog.
- Gweithio'n annibynnol o fewn strategaethau, polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, gan wneud penderfyniadau gweithredol mewn perthynas â gwasanaethau TG Trawsnewid Digidol, a Llywodraethu Gwybodaeth.
- Fel y prif arbenigwr bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb corfforaethol dros ddatblygu, adolygu a gweithredu'r holl bolisïau o fewn gwasanaethau Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth.
- Cydweithio bob amser gyda'r holl reolwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r radd flaenaf a safonau perfformiad uchel.

- Rhoi arweiniad gweladwy ac effeithiol i'r gwasanaethau, gan fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddarpariaeth effeithiol ac effeithlon.
- Gwireddu'r budd mwyaf o'r buddsoddiad digidol drwy gymhwyso arferion da ym maes caffael, gweithredu, a defnyddio systemau gwybodaeth yn barhaus.
- Darparu a datblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol a diwylliant agored sy'n meithrin morâl uchel ac ymrwymiad ymhlith yr holl staff ac sy'n hyrwyddo eu lles, eu datblygiad proffesiynol a phersonol ac sy'n cyd-fynd â gwerthoedd ac ymddygiad disgwylidig y bwrdd iechyd.
- Cyfrifoldeb dros sicrhau llywodraethu, diogelwch, a champau adfer trychineb priodol mewn perthynas â gwasanaethau Digidol a TG.
- Sicrhau bod yr holl wasanaethau allanol ychwanegol sydd eu hangen ar draws y gwasanaeth yn dod drwy broses gomisiynu a chaffael gadarn sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau buddion a chanlyniadau cymunedol priodol.
- Gweithredu fel arweinydd y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â chyflenwyr a chytundebau lefel gwasanaeth partneriaid.
- Gweithredu fel Arweinydd Digidol y Bwrdd Iechyd yng ngrwpiau a Byrddau GIG Cenedlaethol Cymru, Gwybodeg, Digidol a Llywodraeth Cymru.
- Cynnal gwybodaeth am ddatrysiadau technoleg sy'n dod i'r amlwg i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn manteisio ar systemau a thechnolegau newydd i wella gofal cleifion a datblygu effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymunedol.
- Cymryd rhan yn y rota Ar Alw ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Cyfathrebu

Bydd deiliad y swydd yn gweithredu fel llysgennad i'r sefydliad ac yn y rôl hon, fe fydd yn gyfrifol am gyfathrebu ag amrywiaeth o unigolion yn fewnol ac yn allanol i'r sefydliad, bydd hyn yn cynnwys:

- Darparu cyngor arbenigol o ran gwasanaethau a chyfrifoldebau Digidol, Seiber, Llywodraethu Gwybodaeth a SIRO. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar faterion dadleuol neu gymhleth (fel ailgynllunio gwasanaethau, newid sefydliadol).
- Sicrhau bod cyfathrebu priodol, effeithiol a phwrpasol yn cael ei ddatblygu a'i gynnal gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol, ac ar draws clystyrau ym Mhowys, gan sicrhau dull gofal system gyfan.

- Rheoli gwybodaeth gymhleth sy'n aml-linyn (gofynion statudol, darparu gwasanaethau, gwybodaeth ariannol a gweithlu) i reoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Arwain a Chadeirio cyfarfodydd a chynrychioli gwasanaethau Digidol a TG mewn cyfarfodydd mewnol, allanol, cenedlaethol, a chyhoeddus.
- Cynhyrchu deunydd cyfathrebu a fydd yn cael ei gyflwyno i amrywiaeth o gynulleidfaedd a sicrhau bod y cyfathrebu'n briodol o safbwynt y dull cyflwyno a'r gynulleidfa. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu cyfathrebiadau i'r bwrdd iechyd cyfan, datblygu cyflwyniadau, egluro a chyflwyno adroddiadau manwl, datblygu achosion busnes a phapurau ar lefel y Bwrdd.
- Arwain mewn materion o uniondeb a pherfformiad mewn gwasanaethau Digidol. Sicrhau bod prosesau priodol ar waith a bod materion yn cael eu cyfleu'n briodol. Mae hyn yn debygol o fod yn ddadleuol o ran ei natur a gall gynnwys dadleuon a'r gofyniad i gysoni safbwyntiau proffesiynol gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli trefniadau rheoli cymhleth drwy Gytundeb Adran 33, yn ogystal ag arwain materion o'r fath yn uniongyrchol.
- Rhoi gwybod i'r Tîm Gweithredol am unrhyw fater gwasanaeth a allai effeithio ar enw da neu berfformiad y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn gofyn am sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol datblygedig iawn i reoli materion heriol yng nghyd-destun darparu gwasanaethau a rheoli disgwyliadau sy'n debygol o fod yn ddadleuol.
- Atgyfnerthu, adeiladu, a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda phartneriaid allweddol (cenedlaethol a rhanbarthol), darparwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a lle bo hynny'n briodol y gymuned ehangach a hwyluso, drwy gydweithio, darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid.
- Gweithio gyda phartneriaid allanol a rhanddeiliaid mewnol i ail-fodelu gwasanaeth mwy effeithiol, integredig, ac arloesol.
- Cydweithio gyda Chyfarwyddwyr Cynorthwyol ar draws y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r blaenoriaethau strategol sefydliadol.

Rheoli Cyllideb a'r Gweithlu

Yn gyfrifol am reoli gwasanaethau TG. Bydd hyn yn cynnwys rheoli staff yn uniongyrchol yn ogystal â threfniadau rheoli cymhleth sydd ar waith drwy Gytundeb Adran 33. Bydd hyn yn cynnwys:

- Sefydlu llinellau atebolrwydd clir a sicrhau bod yr holl staff yn cael eu rheoli, eu cefnogi, eu goruchwylio a'u hyfforddi'n briodol ar gyfer y rolau a ddisgwylir ganddynt.
- Creu tîm cryf ac effeithiol drwy ysbrydoli eraill â gweledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau, gan ddarparu arweinyddiaeth, cefnogaeth a chyfarwyddyd ysgogol.
- Dal cyfrifoldeb dros wariant yn erbyn y cyllidebau datganoledig sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Digidol, Gwybodaeth, Llywodraethu Gwybodaeth, a Gwasanaethau TG.
- Rheoli, gosod, a monitro cyllideb ddirprwyedig y gwasanaeth gan gynnwys y gyllideb staffio.
- Bod yn rheolwr llinell ar staff ac yn gyfrifol am sicrhau system effeithiol o reoli perfformiad, gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol ar gyfer pob un sy'n adrodd yn uniongyrchol a'u staff.
- Sicrhau bod holl staff y gwasanaeth yn effeithiol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau drwy weithredu'n effeithiol y broses o bennu amcanion personol, gwerthuso rheolaidd, ac annog datblygiad staff a hyfforddiant priodol.
- Sicrhau bod cynlluniau gweithlu priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau bod risgiau'r gweithlu yn cael eu hamlygu a'u rheoli'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith dadansoddi a llunio barn cymhleth mewn perthynas â gwahanol gwybodaeth o wahanol feysydd. Er enghraifft, gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau, gwybodaeth ariannol, data'r gweithlu a data'r boblogaeth ac ati.
- Yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisiau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd ar draws gwasanaethau Digidol, Seiber, Llywodraethu Gwybodaeth a TG.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddelio â materion, er enghraifft, disgyblaeth, cwyno, perfformiad gwael a salwch.
- Sicrhau bod pob Aelod o Staff yn cadw at eu Codau Ymddygiad Proffesiynol priodol.
- Arwain y gwaith o ddylunio, datblygu, rheoli, a chyflawni nifer o brosiectau mawr, cymhleth, a gwerth uchel gydag amryw randdeiliaid clinigol a rheolaethol.

- Yn gyfrifol am fonitro'r contractau cynnal a chadw a chymorth ar gyfer meysydd o fewn y cylch gwaith hwn, gan sicrhau parhad gwasanaeth a rheoli cyllidebau. Nodi cyfleoedd rhagweithiol i sicrhau mwy o werth am arian gyda chontractau cyflenwyr Trydydd Parti.

Datblygu a Rheoli'r Gwasanaeth

Bod yn gyfrifol am ddatblygiad strategol a darparu gwasanaethau Digidol a TG ar draws y Bwrdd Iechyd. Gweithio gyda'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth, gwasanaethau dan gontract, a rhanddeiliaid allweddol, fel bod y rhaglen Trawsnewid Digidol yn datblygu'n barhaus, bydd hyn yn cynnwys:

- Nodi ffyrdd o wella a moderneiddio gwasanaethau digidol, Gwybodaeth, Seiber, Llywodraeth Gwybodaeth a TG drwy ddatblygu arferion gorau, nodi effeithlonrwydd prosesau ac arloesedd cyflenwi gwasanaethau. Pan fo gwrthwynebiad i unrhyw welliannau gwasanaeth sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r targed, bydd y sgiliau ysgogi, negodi a pherswadio angenrheidiol yn cael eu mabwysiadu i sicrhau canlyniad cadarnhaol.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r agenda Digidol, gan sicrhau bod amcanion yn cyd-fynd yn llwyr â chyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd a chydabod y gyd-ddibyniaeth rhwng technoleg ddigidol a lles a chanlyniadau cleifion.
- Gyrru amgylchedd wedi'i gydlynw a'i reoli lle mae newid yn cael ei gyflawni yn erbyn gwaelodlin cymeradwy sy'n ymwneud â chost, ansawdd, ac amser; sicrhau canlyniadau cyflawni sy'n galluogi gwireddu budd-daliadau ac optimeiddio'r dychweliad.
- Yn gyfrifol am gynllunio, costio a gweithredu prosiectau/achosion busnes Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth.
- Arwain gwaith cynllunio gwasanaethau ar gyfer Digidol, Seiber a Llywodraethu Gwybodaeth a datblygu a gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ar gyfer datblygiad parhaus gwasanaethau cynaliadwy ac ariannol hyfyw. Sicrhau bod cynlluniau a datblygiad gwasanaethau yn ystyried yr ystod eang o faterion ac amcanion o fewn meysydd gwasanaeth a chyfeiriad strategol ehangach y Bwrdd Iechyd, gan addasu'r cynlluniau fel bo'r angen.
- Sicrhau bod systemau gwaith diogel a seiberddiogel a'r holl ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol yn cael eu gweithredu.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â gofynion statudol, er mwyn darparu amgylchedd gweithredol sy'n addas i'r diben ac sy'n ddiogel.

- Sicrhau bod gwasanaethau Digidol a TG yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn addas i'r diben, gan wneud y gorau o'r defnydd o wybodaeth am y gwasanaeth, gweithlu, ac archwilio i lywio penderfyniadau.
- Cyfrannu at fecanweithiau cynllunio GIG Cymru a datblygu strategaethau a chyflenwi, gan arwain y gwaith o gynllunio gweithredol ar gyfer gwasanaethau Digidol a TG.
- Dehongli deddfwriaeth hynod gymhleth a'i chyfleu yn ganllawiau dealladwy a sicrhau bod hyn yn cael ei ddatblygu'n bolisiau, gweithdrefnau ac ati sy'n cael eu gweithredu drwy'r gwasanaethau.
- Mae sicrhau bod penderfyniadau gwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn llywio polisiau ac yn cael eu cyflawni yn ôl y safonau uchaf posibl.
- Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredol/gwasanaeth ac achosion busnes ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau Digidol, Llywodraeth Gwybodaeth a TG.
- Rhoi cyfarwyddyd i'r dull cyflenwi newid sy'n adlewyrchu technolegau sy'n dod i'r amlwg a gwerthuso systemau newydd, yn unol â Strategaeth Trawsnewid Digidol y Bwrdd Iechyd ac amcanion ehangach y Bwrdd Iechyd.
- Gweithio gydag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod trawsnewidiad sy'n cael ei alluogi gan Wybodeg yn cael ei ddeall ar draws pob maes gwaith a bod cydweithio yn cael ei ddatblygu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.
- Gweithio ar y cyd â Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwella ac Arloesi a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu, i sicrhau bod agendâu'n cyd-fynd â Fframwaith Strategol Datblygu Sefydliadol.

Rheoli Perfformiad

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid a Gwybodeg Ddigidol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod holl weithgarwch ac amcanion gwasanaethau yn cael eu rheoli, er mwyn cyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau o safon, bydd hyn yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain i sicrhau bod nodau ac amcanion strategol sefydliadol trawsbynciol yn cael eu cyflawni ac yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodir yn yr IMTP a'r Cynllun Blynyddol.
- Cyfrannu at hyfywedd ariannol y Bwrdd Iechyd, osgoi gwastraff ac arfer stiwardiaeth ac atebolrwydd cadarn ar gyfer cyllideb ddirprwyedig gwasanaethau Trawsnewid Digidol a TG, gan sicrhau bod hyn yn unol â chyfarwyddiadau ariannol sefydlog y sefydliad.

- Datblygu diwylliant cydweithredol sy'n perfformio'n uchel yn y Gwasanaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy ddylunio sefydliadol effeithiol a rheoli perfformiadau trylwyr a pharhaus a chadw at Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd y Bwrdd Iechyd.
- Llunio a gweithredu penderfyniadau heriol, sy'n aml yn gymhleth, o ran darparu gwasanaethau, gan gynnwys staffio, blaenoriaethau ac ati.
- Gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir a'r staffio drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i greu adroddiadau ar ofynion gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gwaith awdit.
- Yn gyfrifol am gyflawni pob targed cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei dargedau perfformio. Bydd hyn yn golygu dadansoddi ffeithiau cymhleth iawn a fydd yn gofyn am ddadansoddi a dehongli ystod o opsiynau, e.e., sy'n ofynnol i ddadansoddi perfformiad yn erbyn targedau a fydd yn golygu ystyried ystod eang o opsiynau i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.
- Sicrhau datblygiad a derbyn gwybodaeth reoli gadarn, amserol a chraff sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus, rhagweithiol ynghylch Trawsnewid Digidol a gwasanaethau TG.
- Darparu cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth i wneud y gorau o'r rhaglen o ganlyniadau gwaith a manteision cysylltiedig, drwy arwain drwy arfarniad cadarn o achosion busnes, rheoli ariannol a risg ac, arwain strategaethau rheoli gwrthdaro i ddatrys gofynion lluosog yn erbyn amser, cost, ansawdd, ac adnoddau, i gyd o fewn fframwaith Llywodraethu Gwybodeg diffiniedig.
- Diffinio'r mesurau a'r amcanion ar gyfer y dyfodol i gyflawni prosiectau, gan sicrhau cysondeb â thargedau cenedlaethol ac amcanion lleol a gydag arferion gorau rhyngwladol ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth Iechyd a Gofal.

MANYLEB Y PERSON			
RHINWEDDAU	HANFODOL	DYMUNOL	DULL ASESU
Cymwysterau a / neu Wybodaeth	<p>Addysg i lefel mistr neu brofiad cyfatebol o weithio ar lefel uwch ym maes Technoleg Gwybodaeth neu Ddigidol</p> <p>Gwybodaeth a phrofiad arbenigol o reoli sawl tîm i gefnogi rhaglenni newid digidol mawr, cymhleth</p> <p>Gwybodaeth ddamcaniaethol ac arbenigol uwch ar draws sawl disgyblaeth gwybodaeth a rheolaethol</p> <p>Cymhwyster rheoli neu brofiad cyfatebol</p> <p>Tystiolaeth o ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus</p> <p>Dealltwriaeth o strategaethau comisiynu, masnachol a chaffael</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o ofynion profiad gwasanaethau cwsmeriaid digidol yn y sector cyhoeddus</p> <p>Deall Polisi Iechyd GIG Cymru a'r effaith ar TG a Digidol</p>	<p>Gwybodaeth am fframwaith rheoli perfformiad GIG Cymru</p> <p>Cymhwyster Rheoli Rhaglenni</p>	<p>Gwiriadau cyn-gyflogi</p> <p>Ffurflen Gais</p>
Profiad	<p>Profiad sylweddol o reoli a darparu gwasanaethau TG ar lefel uwch</p> <p>Tystiolaeth o weithio ar draws ffiniau sefydliadol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol amrywiol i sicrhau llwyddiant</p> <p>Profiad o reoli newidiadau mewn gwasanaethau</p>		<p>Ffurflen Gais a Chyfweliad</p>

RHINWEDDAU	HANFODOL	DYMUNOL	DULL ASESU
Profiad	<p>Profiad o ddatblygu a gweithredu cynlluniau i wella ansawdd gwasanaethau yn dilyn archwiliad mewnol ac allanol</p> <p>Profiad o/a'r gallu i weithio'n llwyddiannus gyda staff o fewn timau ac ar draws sefydliadau</p>		
Doniau a Galluoedd	<p>Y gallu i ddehongli deddfwriaeth gymhleth a manylebau technegol a'u cymhwyso fel polisi a/neu ddatblygiad gwasanaethau.</p> <p>Y gallu i ddangos diplomyddiaeth wrth weithio gydag eraill</p> <p>Y gallu i gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau</p>	Yn gallu siarad/ysgrifennu Cymraeg	Cyfweliad Ffurflen Gais
Gwerthoedd	Yn gallu dangos gwerthoedd y Bwrdd Iechyd		Cyfweliad Ffurflen Gais
Arall	<p>Yn gallu teithio i mewn ac allan o'r sir</p> <p>Yn gallu gweithio oriau hyblyg</p> <p>Yn gallu cymryd rhan mewn gwaith ar alwad</p>		Ffurflen Gais a Chyfweliad

GOFYNION CYFFREDINOL

Yn cynnwys y rheini sy'n berthnasol i ofynion y swydd

- **Gwerthoedd:** Mae gofyn i bob un o gyflogeion y Bwrdd Iechyd ddangos a gwreiddio'r Datganiadau Gwerthoedd ac Ymddygiad er mwyn iddyn nhw ddod yn rhan annatod o fywyd gweithio deiliad y swydd, a gwreiddio'r egwyddorion yn niwylliant y sefydliad.
- **Cymhwysedd:** Ni ddylai deiliad y swydd fyth weithio y tu allan i'w lefel cymhwysedd ddiffiniedig. Os oes yna bryderon ynglŷn â hyn, dylai deiliad y swydd eu trafod ar unwaith â'i Reolwr/Goruchwyliwr. Mae gan gyflogeion gyfrifoldeb i roi gwybod i'w Rheolwr/Goruchwyliwr os ydyn nhw'n amau eu cymhwysedd eu hunain i berfformio dyletswydd.
- **Dysgu a Datblygu:** Mae'n rhaid i bob aelod o staff ddilyn rhaglenni cynefino/ymgyfarwyddo ar lefel Gorfforaethol ac Adrannol, ac mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau bod unrhyw ofynion hyfforddiant statudol/gorfodol yn gyfoes ac wedi'u diweddarau. Mae gofyn i staff ddangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus lle yr ystyrir hyn yn briodol.
- **Arfarnu Perfformiad:** Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu ein staff ac rydych chi'n gyfrifol am gymryd rhan mewn Adolygiad Blynyddol o Ddatblygu Perfformiad yn y swydd.
- **Iechyd a Diogelwch:** Mae gan bob un o gyflogeion y sefydliad ddyletswydd statudol i ofalu am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch eraill y gallai y pethau y maen nhw'n eu gwneud, neu ddim yn eu gwneud, effeithio arnyn nhw. Mae gofyn i ddeiliad y swydd gydweithredu â rheolwyr i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun, a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd lynu at bolisi Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch y sefydliad, a pholisïau cysylltiedig.
- **Rheoli Risg:** Mae'n un o elfennau safonol rôl a chyfrifoldeb pob aelod o staff y sefydliad eu bod nhw'n cyflawni rôl ragweithiol o ran rheoli risg ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud. Mae hyn yn golygu gwneud asesiad risg o bob sefyllfa, cymryd camau priodol ac adrodd am bob cythrwfl, perygl, a chythrwfl a fu bron â digwydd.
- **Yr Iaith Gymraeg:** Rhaid i bob cyflogai berfformio'i ddyletswyddau gan gydymffurfio'n llwyr â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg eu sefydliad, a manteisio ar bob cyfle i hybu'r Gymraeg wrth ddelio â'r cyhoedd.
- **Llywodraethu Gwybodaeth:** Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol bob amser o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a chadw'n ddiogel unrhyw wybodaeth sy'n dod i'w ran wrth wneud ei ddyletswyddau. Bydd hyn, mewn sawl achos, yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth.

- **Diogelu Data:** Rhaid i ddeiliad y swydd drin yr holl wybodaeth, boed yn wybodaeth am y gorfforaeth, staff neu gleifion, mewn modd gochelgar a chyfrinachol yn unol â darpariaethau'r Ddeddfwriaeth Gyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Polisi Sefydliadol. Ystyrir unrhyw achos o dorri cyfrinachedd o'r fath yn drosedd ddisgyblu ddifrifol a allai arwain at ddiswyddo a / neu erlyn dan ddeddfwriaeth statudol gyfredol a Pholisi Disgyblu'r Bwrdd neu'r Ymddiriedolaeth Iechyd.
- **Rheoli Cofnodion:** Fel cyflogai'r sefydliad hwn, mae deiliad y swydd yn gyfreithiol gyfrifol am bob cofnod y mae'n ei gasglu, ei greu neu ei ddefnyddio fel rhan o'i waith o fewn y sefydliad (gan gynnwys iechyd cleifion, iechyd neu anafiad staff, gwybodaeth ariannol, bersonol a gweinyddol), boed ar bapur neu ar gyfrifiadur. Ystyrir cofnodion o'r fath yn gofnodion cyhoeddus ac mae gan ddeiliad y swydd ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth (hyd yn oed ar ôl i gyflogai fod wedi gadael y sefydliad). Dylai deiliad y swydd ymgynghori â'i reolwr os oes unrhyw amheuaeth o gwbl ynglŷn â sut i reoli'n gywir y cofnodion y mae'n gweithio â nhw.
- **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru'n gosod dyletswydd bositif ar y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth i hybu cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchoddedig, fel cyflogwr a hefyd fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Mae yna naw o nodweddion gwarchoddedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw ymgeisydd am swydd neu gyflogai'n derbyn triniaeth lai ffafriol ar unrhyw sail a nodir uchod. I'r perwyl hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac mae hi i fyny i bob cyflogai gyfrannu at ei lwyddiant.
- **Urddas yn y Gwaith:** Mae'r sefydliad yn condemnio pob ffurf ar fwlio ac aflonyddu ac mae'n mynd ati'n weithredol i geisio hybu gweithle lle mae cyflogeion yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch. Mae gofyn i bob aelod o staff roi gwybod am unrhyw ffurf ar fwlio ac aflonyddu i naill ai eu Rheolwr Llinell neu i unrhyw Gyfarwyddwr y sefydliad. Ni oddefir unrhyw ymddygiad amhriodol yn y gweithle a chaiff hyn ei drin fel mater difrifol dan Bolisi Disgyblu'r BI/Ymddiriedolaeth.
- **Gwiriad Datgelu DBS:** Yn y rôl hon fe fydd gennych chi **ddim cyswllt** â chleifion / defnyddwyr gwasanaeth / plant /oedolion agored i niwed wrth wneud eich dyletswyddau arferol. Felly fe fydd dim gofyn ichi ymgeisio am Wiriad Datgelu y Swyddfa Cofnodion Troseddol fel rhan o weithdrefn wirio cyn cyflogi'r BI/Ymddiriedolaeth.
- **Diogelu Plant ac Oedolion mewn Risg:** Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ymrwymo'n llwyr i ddiogelu pobl. Mae cyflogeion a gweithwyr (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth a gweithwyr cronfa) yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw'n deall pa gamau i'w cymryd os oes ganddyn nhw achos rhesymol i amau bod plentyn neu oedolyn mewn risg o niwed, a'u bod nhw'n cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol yn unol â chymwyseddau penodol eu rôl.

- **Rheoli Haint:** Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ddiwallu ei rwymedigaethau i sicrhau cyn lleied o heintiau â phosibl. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am amddiffyn a diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a chyflogeion rhag y risg o ddal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys bod yn ymwybodol o gynnwys Polisiâu a Gweithdrefnau Atal a Rheoli Haint y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, a glynu at y rhain yn gyson.
- **Dim Ysmygu:** Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r holl gleifion, ymwelwyr a staff fod yn iach, mae pob un o safleoedd y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, gan gynnwys yr adeiladau a'r tiroedd, yn ddi-fwg.

Siart Sefydliadol:

